Bitesize

## Cyfnewid nwyon

| | |
|---|---|
| MEGAN | Ah, mynydda - Cyfle gwych i ga'l llond 'sgyfaint o awyr iach. |
| RHYS | Llond 'sgyfaint…ti'n deud?! |
| MEGAN | Wel Rhys, cawr y byd campio. Ga'i help llaw i godi'r pebyll 'ma? |
| RHYS | Hei, Alfred, sut mae codi pabell? |
| ALFRED | Y cam cynta cyn gwneud unrhywbeth corfforol, fel codi pabell, yw anadlu'n gywir.<br><br>Defnyddia dy geg a dy drwyn i dynnu tipyn o'r aer o dy gwmpas a danfona fe lawr dy dracea.<br><br>Os yw'r aer wedi mynd y ffordd cywir, bydd yn cyrraedd y broncws a'n teithio at y bronciolynnau, sy'n  llai. Ar ddiwedd pob bronciolyn mae clwstwr o sachau aer o'r enw alfioli. |
| RHYS | Alfi-beth? |
| ALFRED | Mae gan Alfeoli furiau cul, leinin llaith ac arwynebedd arwyneb uchel. Maen nhw'n amgylchynu pibellau gwaed o'r enw capilarïau. Maen nhw'n eistedd mor agos i'w gilydd, mae'r capilarïau a'r alfeoli'n rhannu'r un muriau pilen. |
| RHYS | Pam? |
| ALFRED | Am ei fod yn haws danfon ocsigen o'r aer i gelloedd coch y gwaed. Yna, mae'r gwastraff - y carbon deuocsid - yn cael ei gludo i ffwrdd gan dy blasma, diolch i dryledIad.<br><br>Tria fe nawr. |
| RHYS | Dw i'n ei wneud o! |


**© Hawlfraint BBC**

| | |
|---|---|
| ALFRED | Gwaith gwych. Cyfnewid nwyon llwyddiannus. |
| RHYS | Diolch am dy help Alfred. Rwan, beth am y babell ‘ma. |
| MEGAN | Nos da Rhys. |


© Hawlfraint BBC